**Jeremy Miles AC/AM**

**Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog Brexit**
**Counsel General and Brexit Minister**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**SeneddEAAL@assembly.wales**

20 Rhagfyr 2019

Annwyl Mr Rees,

**Ymateb Ysgrifenedig Llywodraeth Cymru i Adroddiad y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol (EAAL): Newidiadau i ryddid i symud ar ôl Brexit – y goblygiadau i Gymru**

**Cyflwyniad**

Rwy'n croesawu adroddiad y Pwyllgor sy'n edrych ar sut bydd y newidiadau i ryddid i symud ar ôl Brexit yn effeithio ar Gymru. Mae Cymru'n gartref i filoedd o ddinasyddion yr UE, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd a dinasyddion y Swistir sy'n cael eu gwerthfawrogi gennym yn ein cymunedau ac yn gwneud cyfraniad sylweddol at ein gwasanaethau cyhoeddus hanfodol a'n busnesau bob dydd. Mae'r rhain yn ffrindiau, yn gymdogion ac yn gydweithwyr i ni, ac rydym am i holl ddinasyddion yr UE yng Nghymru allu parhau i fyw a gweithio yma.

Mae gan Gymru hanes hir o fod yn genedl groesawgar a chynhwysol. Rydym yn dathlu'r ffaith bod dinasyddion o wledydd eraill Ewrop wedi dod i'n gwlad fel cymdogion, cydweithwyr, ffrindiau a theulu dros flynyddoedd lawer.

Rydym yn cydnabod bod yr amgylchiadau cyfredol a'r ansicrwydd ynghylch Brexit yn peri pryder ac rydym yn falch o'r cyfle i roi sicrwydd i ddinasyddion yr UE sy'n byw yng Nghymru ein bod am weld eu hawliau a'u statws yn cael eu diogelu, ac i ailadrodd y byddwn yn defnyddio pob cyfle i bwysleisio hynny gyda llywodraeth y DU. Yn arbennig, rydym yn awyddus i gefnogi gwladolion yr UE i wneud cais am statws preswylydd sefydlog i sicrhau eu hawliau. Isod, rydym wedi nodi pa gamau gweithredu y mae Llywodraeth Cymru'n eu cymryd i ddarparu cymorth a chyngor i ddinasyddion yr UE yn ystod y cyfnod hwn, yn enwedig i'r rhai sy'n gweld y broses o wneud cais am statws preswylydd sefydlog yn anodd.

Mae mudo yn agenda polisi strategol hanfodol i Lywodraeth Cymru ac yn *Brexit a Thegwch o ran Symudiad Pobl* fe wnaethom ni gynnig y dylid cadw'r hawl i bobl symud yn rhydd ond ei gysylltu mwy â chyflogaeth; ac y dylai gael ei ategu gan bolisi llawer mwy grymus i atal ecsbloetio gweithwyr.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ceisio cyfrannu at a llywio datblygiad y polisi ar fudo yn y DU, gan bwysleisio pwysigrwydd a manteision mudo i Gymru, yn seiliedig ar sail dystiolaeth gynyddol i ddylanwadu ar Lywodraeth y DU. Mae'n siomedig felly fod Llywodraeth y DU wedi cynnig cyflwyno dull dethol ar sail sgiliau a chyflog wrth ymdrin â mudo yn y dyfodol. Credwn y bydd hyn yn dwysau effeithiau cymdeithasol ac economaidd yng Nghymru ar ôl Brexit.

Byddai cynigion Llywodraeth y DU, fel y'u deallwn ar hyn o bryd, ac er gwaethaf eu honiadau, yn effeithio ar y bobl hynny â sgiliau canolradd, yn enwedig ym maes gweithgynhyrchu a'r sector gofal, cymaint â phobl â lefelau sgiliau eraill.

Ar sail ein dadansoddiad, mae rhai sectorau'n fwy agored i niwed o safbwynt lleihau mudo o'r UE yn y dyfodol. Mae'r rhain yn cynnwys gofal cymdeithasol, iechyd, a gweithgynhyrchu yn cynnwys bwyd-amaeth, twristiaeth, lletygarwch, manwerthu ac addysg uwch. Byddwn yn parhau i ddadlau am bolisi mudo sy'n diwallu anghenion Cymru.

Mae'n annerbyniol hefyd fod Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi y bydd cost flynyddol defnyddio gwasanaethau'r GIG yn codi o £400 i £625 i'r rhai sy'n destun rheolaeth mewnfudo. Byddwn yn parhau i alw ar Lywodraeth y DU i symleiddio'r system fisa mewnfudo fel bod y costau a'r baich gweinyddol mor isel â phosib.

Hoffwn ddiolch i aelodau Pwyllgor EAAL am eu hadroddiad ar sut bydd y newidiadau i ryddid i symud ar ôl Brexit yn effeithio ar Gymru. Rwy'n arbennig o falch fod casgliadau ac argymhellion y Pwyllgor ar y cyfan yn cyd-fynd â'n ffordd o feddwl ar hyn o bryd a'n cynlluniau ar gyfer y dyfodol.

**<u>Mae'r Ymatebion Manwl i argymhellion yr adroddiad wedi'u nodi isod:</u>**

***Argymhelliad 1****. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r holl ddulliau sydd ar gael iddi i sicrhau bod y trothwy cyflog arfaethedig yn cael ei ostwng, neu ei ddileu mewn unrhyw system fewnfudo ar ôl Brexit.*

**Ymateb: Derbyn**

Mae Llywodraeth Cymru'n anghytuno'n sylfaenol â chynigion y Papur Gwyn ar Fewnfudo, a fyddai'n gweld mudwyr o'r UE a'r tu allani'r UE sy'n dymuno dod i'r DU i weithio yn gorfod gwneud cais drwy lwybr gweithwyr medrus Haen 2 fel rheol. Ni fyddai'r rhai sy'n ennill llai na £30,000 (yn amodol ar ymgynghoriad) yn gymwys yn gyffredinol.

Gan dynnu ar y dystiolaeth a'r dadansoddiad yn adroddiad Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru ar *Fudo yng Nghymru: Effaith newidiadau polisi ôl-Brexit*[1] y flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru fu dadlau na ddylid cael trothwy cyflog, ac os oes rhaid pennu un, y dylid ei bennu ar £20,000 i'r DU gyfan.

Yn ystod rhaglen ymgysylltu 12 mis Llywodraeth y DU, mae Gweinidogion a swyddogion wedi defnyddio'r dystiolaeth a'r dadansoddiad a gyflwynwyd yn adroddiad y Ganolfan Bolisi i alw ar Lywodraeth y DU i ddileu, neu leihau fel arall, y trothwy cyflog arfaethedig. Mae'r agwedd hon yn cyd-fynd â galwadau am drothwy is gan y gymuned fusnes ehangach. Credwn fod hyn wedi cyfrannu at benderfyniad Llywodraeth y DU i ofyn i Bwyllgor Cynghori y Swyddfa Gartref ar Fudo i ailedrych ar y mater hwn.

Os yw Llywodraeth y DU yn mynnu cyflwyno trothwy cyflog bydd hi'n bwysig gallu cyfrif unrhyw drothwy yn y dyfodol ar sail pro-rata hefyd. Heb lwfans pro-rata, bydd gweithwyr rhan-amser – menywod yn bennaf – yn wynebu gwahaniaethu o dan y system fewnfudo newydd. Am y rheswm hwn byddem yn cefnogi casgliad y pwyllgor ei bod hi'n bwysig cael asesiad cadarn o'r effaith ar gydraddoldeb i gyd-fynd â chynigion diwygiedig Llywodraeth y DU.

---

[1] ttps://www.wcpp.org.uk/wp-content/uploads/2019/03/FINAL-WCPP-report_Immigration-in-Wales-post-Brexit-Cymraeg.pdf

**Goblygiadau Ariannol** – Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu cynnwys yng nghyllidebau rhaglenni cyfredol.

***Argymhelliad 2.*** *Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn creu pwynt gwybodaeth canolog ar bolisi mewnfudo lle mae modd i bob sector datganoledig gael gwybodaeth awdurdodol mewn perthynas â'r newidiadau posibl i ryddid i symud ar ôl Brexit, a'i bod yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am ei hymdrechion yn y maes yn ei hymateb i'r adroddiad hwn.*

**Ymateb: Derbyn**

Rydym yn croesawu'r argymhelliad hwn sydd wedi'i adlewyrchu mewn pecyn gwaith sydd wrthi'n cael ei baratoi gan Lywodraeth Cymru. Mae gwefan *Paratoi Cymru* yn ffynhonnell wybodaeth gynhwysfawr unigol i Gymru am y camau gweithredu y gall dinasyddion eu cymryd i baratoi am Brexit. Mae'n nodi canllawiau a chyngor i ddinasyddion yr UE, sefydliadau a sectorau ledled Cymru. Mae *Paratoi Cymru* yn cynnwys cyngor gan Lywodraeth Cymru a dolenni i'r cyngor diweddaraf gan Lywodraeth y DU a chyrff eraill.

Mae adran newydd ar 'Ddinasyddion yr UE yng Nghymru' wedi'i datblygu ar Paratoi Cymru. Mae'r adran hon yn cynnwys gwybodaeth am hawliau dinasyddion yr UE i ddefnyddio gwasanaethau'r sector cyhoeddus yng Nghymru. Bydd y pwynt gwybodaeth hwn yn cael ei gynnal wrth i Lywodraeth y DU greu polisïau newydd.

Yn ogystal, mae Llywodraeth Cymru'n ysgrifennu at sefydliadau addysg, llywodraeth leol, gwasanaethau lleol, y GIG, sefydliadau addysg uwch, sefydliadau'r trydydd sector, sefydliadau cynrychioli busnes, rhanddeiliaid economaidd a rhwydweithiau economaidd i ddarparu gwybodaeth am hawliau dinasyddion yr UE a gwasanaethau cynghori sydd ar gael i ddinasyddion yr UE sy'n gwneud cais am y Cynllun Preswylio'n Sefydlog. Mae'n gwneud hyn i sicrhau bod ganddynt wybodaeth awdurdodol glir am hawliau dinasyddion yr UE nes mis Rhagfyr 2020 a gwiriadau statudol i gadarnhau eu hawl am feysydd gwasanaeth.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu cynnwys yng nghyllidebau rhaglenni cyfredol.

***Argymhelliad 3.*** *Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu, yn ei hymateb i'r adroddiad hwn, y wybodaeth ddiweddaraf am y canlynol:*

- *pa drafodaethau y mae wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ar gydweithredu ym maes y celfyddydau yn y dyfodol ar ôl Brexit, gan gynnwys cytuno ar gytundeb cydweithredol newydd rhwng y DU a'r UE;*

- *pa drafodaethau y mae'n eu cael am rôl y DU yn rhaglen Erasmus+ yn y dyfodol, ac unrhyw drafodaethau y mae'n eu cael ar gyfer cynllun olynol;*

- *pa drafodaethau y mae'n eu cael am roi cydnabyddiaeth gilyddol i gymwysterau addysg feddygol a hyfforddiant.*

**Ymateb: Derbyn**

**Ymateb i bwynt bwled 1.** Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi cael trafodaethau uniongyrchol gyda gweithwyr cyfatebol yn yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (yn cynnwys yr is-raglen Diwylliant). Mae'r trafodaethau hyn wedi cynnwys:

- trefniadau i alluogi derbynwyr cyfredol Cymru i gael eu hariannu gan Lywodraeth y DU o dan delerau Gwarant Trysorlys Ei Mawrhydi pe baem yn gadael yr UE heb gytundeb (mae'r trefniadau hyn nawr ar waith);
- y posibilrwydd o fynediad i Ewrop Greadigol o ddechrau'r Rhaglen newydd yn 2021;
- opsiynau posibl ar gyfer cyllid pontio, i alluogi prosiectau newydd yn y DU a fyddai fel arall wedi gwneud cais i Ewrop Greadigol i wneud cais am gyllid yn y cyfnod cyn i'r trefniadau newydd o

2021 ymlaen gael eu cytuno a'u gweithredu – naill ai o'r adeg pan fyddwn yn gadael yr UE (pe na bai cytundeb), neu o ddechrau 2021.

Cynhaliwyd trafodaethau ar y ddau bwynt diwethaf drwy fwrdd partneriaeth Ewrop Greadigol y DU, ac mae gan Lywodraeth Cymru gynrychiolaeth arno. Mae'r materion hyn yn mynd rhagddynt ac rydym yn disgwyl i drafodaethau barhau nawr bod gweinyddiaeth newydd y DU ar waith.

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru'n cyfrannu adnodd i Ddesg Ewrop Greadigol yng Nghymru. Mae hefyd yn gweithio'n agos gyda Chynghorau Celfyddydau eraill y DU ar faterion Brexit ac yn darparu briffiau i'r sector celfyddydau yng Nghymru. Fel rhan o'r gwaith hwnnw mae'n cydgysylltu trafodaeth reolaidd rhwng y cyrff hyn yn y DU, ac mae Llywodraeth Cymru hefyd yn rhan o'r trafodaethau. Mae hyn wedi bod yn werthfawr iawn i lywio ein gwaith uniongyrchol gyda'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ar faterion Brexit.

Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi trafod materion fisa a mewnfudo a wynebir gan y sector gyda rhanddeiliaid allanol a gweinyddiaethau datganoledig eraill ac wedi annog Llywodraeth y DU i gymryd rhan yn yr uwchgynhadledd ar faterion fisa sydd wedi'i chynnig gan Lywodraeth yr Alban; bwriedir ei chynnal ym mis Chwefror 2020. Rydym wedi cynnal trafodaethau gyda'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon am y cytgordiau cydweithredol rhwng y DU a'r UE a disgwyliwn i'r rhain barhau.

**Ymateb i bwynt bwled 2.** Cafwyd trafodaethau rheolaidd yn Is-bwyllgor y Cabinet, ac mae'r Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit wedi cydweithio'n agos gyda'r Gweinidog Addysg ar effeithiau posibl Brexit ar raglen Erasmus+ yn y dyfodol. Mae Llywodraeth Cymru wedi pwysleisio ei safbwynt yn gyson bod rhaid i Lywodraeth y DU sicrhau cyfranogiad parhaus yn rhaglen Erasmus+ ar gyfer rhaglenni presennol ac yn y dyfodol. Mae'r Gweinidog Addysg wedi pwysleisio pwysigrwydd diogelu dyfodol Erasmus+ gyda Chris Skidmore AS, y Gweinidog dros Brifysgolion, Gwyddoniaeth, Ymchwil ac Arloesedd yng nghyfarfodydd pedairochrog y gweinidogion ar 23 Medi a 21 Hydref. Os bydd yn cael ei basio, bydd y Cytundeb Ymadael yn caniatáu i'r DU barhau i gymryd rhan yn rhaglen Erasmus+ ym mlwyddyn derfynol y rhaglen yn 2020.

Er ein bod wedi nodi'n glir ei bod yn flaenoriaeth gennym sicrhau cyfranogiad yn rhaglen Erasmus+ yn y dyfodol, mae swyddogion wedi gweithio'n agos gyda Llywodraeth y DU i drafod cynlluniau i'w olynu, a bydd hyn yn parhau yn 2020.

**Ymateb i bwynt bwled 3.** Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn yr adran iechyd wedi gweithio'n agos gyda'u swyddogion cyfatebol yn y DU, yr Alban a Gogledd Iwerddon i gyflwyno'r trefniadau a nodir isod i gydnabod cymwysterau meddygol a hyfforddiant. Mae rheoleiddwyr cymwysterau proffesiynol iechyd a gofal y DU hefyd wedi bod yn rhan o drafodaethau trawslywodraethol i gynllunio ar gyfer dwy senario – trefniadau Dim Cytundeb a Chytundeb Brexit. Bydd y trafodaethau hyn yn parhau.

Bwriad y dull hwn yw rhoi sicrwydd, a helpu busnesau a gwasanaethau cyhoeddus fel y GIG i gadw a recriwtio ymarferwyr iechyd sydd wedi cymhwyso yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir i ddiwallu anghenion staffio.

Mae Llywodraeth y DU, y gweinyddiaethau datganoledig a rheoleiddwyr y DU wedi cydweithio i gyflwyno deddfwriaeth, sy'n golygu y bydd rheoleiddwyr y DU yn parhau i dderbyn y cymwysterau y mae'n rhaid iddynt eu derbyn yn awtomatig ar hyn o bryd, yn cynnwys y rhai sy'n gysylltiedig â staff iechyd a gofal (yn achos gweithwyr iechyd proffesiynol mae hyn cynnwys meddygon, deintyddion, nyrsys, bydwragedd a fferyllwyr) o'r UE, Gwlad yr Iâ, Liechenstein, Norwy a'r Swistir. Bydd cymwysterau proffesiynol meddygol/iechyd nad ydynt yn cael eu derbyn yn awtomatig yn parhau i gael eu hasesu o dan y llwybr cydnabod cyffredinol, a bydd hyn yn erbyn safon cymwysterau'r DU, fel sy'n wir ar hyn o bryd. Gall staff iechyd a gofal o'r gwledydd hyn sy'n gweithio yn y DU ar hyn o bryd barhau i wneud hynny. Caniateir ceisiadau a wnaed cyn i'r DU adael yr UE ond sy'n parhau ar ôl gadael gael eu cwblhau o dan drefniadau cyfredol cyn belled â phosibl.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu cynnwys yng nghyllidebau rhaglenni cyfredol.

***Argymhelliad 4.*** *Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn diweddaru'r Cynllun Cydlyniant Cymunedol i gymryd i ystyriaeth yr heriau newydd i gydlyniant cymunedol yng Nghymru.*

**Ymateb: Derbyn**

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i weithio tuag at Gymru o Gymunedau Cydlynus a sicrhau bod gwaith cynllunio cydlyniant cymunedol yn gyfredol gan adlewyrchu'r heriau presennol a bod pob tîm cydlyniant cymunedol rhanbarthol yn cyflawni cynllun gwaith pwrpasol y cytunwyd arno rhwng Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol ym mhob rhanbarth, sy'n cynnwys camau gweithredu o'r Cynllun Cydlyniant Cymunedol blaenorol yn ogystal â blaenoriaethau sy'n dod i'r amlwg fel Brexit a Statws Preswylydd Sefydlog yr UE, yn ogystal â blaenoriaethau lleol.

Rydym wedi defnyddio Cronfa Bontio'r UE i ehangu ein *Rhaglen Cydlyniant Cymunedol.* Darparodd y rhaglen gyfredol wyth Cydgysylltydd Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol yn gweithredu ledled Cymru, gan gefnogi llywodraeth leol a Llywodraeth Cymru gyda dealltwriaeth o densiynau cymunedol, gwella'r ymwneud rhwng cyrff cyhoeddus a chymunedau, a dod â chymunedau at ei gilydd. Mae'r rhaglen a ddiweddarwyd yn darparu adnoddau ychwanegol i ddarparu dau swyddog cydlyniant cyfwerth ag amser llawn ym mhob rhanbarth (i gefnogi'r Cydgysylltydd) ac arian ar gyfer gweithgareddau ymgysylltu a chodi ymwybyddiaeth ychwanegol mewn cymunedau.

Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n datblygu ei set nesaf o Amcanion Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2020-24 a newydd ymgynghori ar Amcanion drafft. Fel rhan o hynny byddwn yn datblygu fframwaith monitro er mwyn mesur y cynnydd a wnaed tuag at gydlyniant cymunedol ac yn meithrin cydberthnasau da rhwng pob grŵp, gan adeiladu ar ein polisïau a'n hymyriadau presennol. Rydym wrthi'n dadansoddi ymatebion i'r ymgynghoriad sy'n helpu i lywio camau gweithredu a fydd yn sylfaen i Gynllun Cydraddoldeb Strategol Llywodraeth Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n datblygu ei set nesaf o Amcanion Cydraddoldeb Strategol. Rydym yn parhau i ystyried y dulliau mwyaf effeithiol a phriodol o ddiweddaru ein cynllun cydlyniant cymunedol ar gyfer y blynyddoedd nesaf.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu cynnwys yng nghyllidebau rhaglenni cyfredol.

***Argymhelliad 5.*** *Mae'r Pwyllgor yn annog Llywodraeth Cymru i fynegi ein pryderon, fel y nodir yn ein casgliadau, wrth Swyddfa Gartref y DU, a rhoi gwybodaeth i'r Pwyllgor hwn am ei hymdrechion yn hynny o beth.*

**Ymateb: Derbyn**

Mae Llywodraeth Cymru'n cytuno â'r pryderon a'r casgliadau a godwyd. Bydd Llywodraeth Cymru'n parhau i dynnu sylw at y pryderon hyn gyda Llywodraeth y DU ac yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu cynnwys yng nghyllidebau rhaglenni cyfredol.

***Argymhelliad 6.*** *Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn arwain yn gryfach trwy ddyblu ei hymdrechion i roi cyngor a chymorth i ddinasyddion yr UE. Ffordd bosibl o gyflawni hyn fyddai cyflwyno cynllun cyfathrebu diwygiedig, sy'n cynnwys negeseuon allweddol ac sydd i'w ledaenu trwy wasanaethau cyhoeddus ee byrddau iechyd lleol, ysgolion a llywodraeth leol.*

**Ymateb: Derbyn**

Mae strategaeth gyfathrebu Llywodraeth Cymru ar gyfer y Cynllun Preswylio'n Sefydlog yn cael ei adolygu ar hyn o bryd, gyda golwg i'w ddiwygio i sicrhau negeseuon effeithiol i ddinasyddion anodd eu cyrraedd yr UE.

Gyda chefnogaeth Cronfa Bontio’r UE, mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyngor a chymorth i ddinasyddion yr UE. Mae hyn yn cynnwys cyngor Cynllun Preswylio’n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE drwy: Newfields Law (yn cynnwys cyngor ar achosion cymhleth); Cyngor ar Bopeth Cymru (cyngor rhagarweiniol); a chyllid ychwanegol i’r Cynllun Preswylio’n Sefydlog i reoli rhwydwaith o wirfoddolwyr i ddarparu cyngor a chymorth i ddinasyddion yr UE (a darparu cyngor rhagarweiniol). Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu grŵp Cydgysylltu EUSS Cymru, i gydgysylltu darpariaeth cyngor ledled Cymru, gan sicrhau’r defnydd gorau o adnoddau a chroesgyfeiriadau i sicrhau’r cymorth gorau i ddinasyddion yr UE.

Yn ogystal, mae darparwyr cyngor Llywodraeth Cymru ac EUSS wedi gwneud cyflwyniadau i gyfarfodydd cyntaf Rhwydweithiau Cyngor Rhanbarthol Cymru. Mae’r rhwydweithiau hyn yn rhoi’r cyfle i gynnig gwasanaethau cyngor mwy cydgysylltiedig, ac yn cefnogi croesgyfeiriadau rhwng gwahanol ddarparwyr gwasanaethau cyngor, er mwyn cydgysylltu a thargedu gwasanaethau cyngor yn well ledled Cymru.

Dyrannwyd £30,000 arall o Gronfa Pontio’r UE i gyfathrebu gyda dinasyddion yr UE, i gyfleu’r neges bod croeso iddynt yng Nghymru, ac y dylent wneud cais am y Cynllun Preswylydd Sefydlog. Mae’r fanyleb ar gyfer yr ymgyrch wybodaeth hon allan i dendr ar hyn o bryd. Mae angen datblygu’r deunyddiau erbyn diwedd Mawrth 2020 i’w dosbarthu’n syth.

Mae gwaith cyfathrebu diweddar wedi cynnwys:

- Dosbarthu posteri a thaflenni yn hyrwyddo’r Cynllun Preswylio’n Sefydlog i: archfarchnadoedd, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru a’u haelodau, cydgysylltwyr Brexit a swyddogion cydlyniant cymunedol awdurdodau lleol, a thimau economaidd awdurdodau lleol;
- Cylchlythyrau i fusnesau’n tanysgrifio i gylchlythyrau Bwyd a Diod Cymru (gan gyrraedd 8,000 yn uniongyrchol); a Chanllaw ar gyfer busnesau yn amlinellu negeseuon allweddol a llwybrau cyngor i staff Llywodraeth Cymru sy’n ymdrin yn uniongyrchol â busnesau;
- Dosbarthu posteri, taflenni a negeseuon allweddol i grwpiau busnes, fel y Ffederasiwn Busnesau Bach, i’w dosbarthu’n ehangach i’w haelodau yng Nghymru;
- Hysbysebion Facebook yn targedu dinasyddion yr UE, gan amlinellu bod croeso iddynt yng Nghymru yn ogystal â negeseuon Facebook Llywodraeth Cymru a chyfrif twitter y Cwnsler Cyffredinol;
- Datganiad i’r wasg a fideo ar gyfrif twitter y Cwnsler Cyffredinol a’r Gweinidog Brexit yn hyrwyddo’r neges “Rydym am i ddinasyddion yr UE aros”;
- Cyflwyniad i Gonswliaid Anrhydeddus sydd â swyddfeydd yng Nghymru, dan gadeiryddiaeth y Cwnselydd Cyffredinol, yn cyflwyno’r pecyn cymorth sydd ar gael i ddinasyddion yr UE;
- Llythyr i sefydliadau addysg, llywodraeth leol, gwasanaethau cymdeithasol, y GIG, sefydliadau addysg uwch, sefydliadau trydydd sector, sefydliadau cynrychioli busnes a rhwydweithiau’r economi, yn darparu gwybodaeth am hawliau dinasyddion yr UE a’r cyngor sydd ar gael i ddinasyddion yr UE sy’n gwneud cais am y Cynllun Preswylio’n Sefydlog;
- Cefnogi sefydliadau a ariennir gan Lywodraeth Cymru, y Tîm Cymorth Ieuenctid Ethnig (EYST) a Settled, i weithio ledled Cymru i nodi ac ymgysylltu â rhwydweithiau anffurfiol a ddefnyddir gan ddinasyddion yr UE, yn cynnwys siopau bwyd, caffis, eglwysi a grwpiau cyfryngau cymdeithasol, i godi ymwybyddiaeth o’r cyngor sydd ar gael, yn hytrach na dibynnu ar gyfryngau traddodiadol neu rwydweithiau ffurfiol;
- Cyhoeddi datganiad i’r cyfryngau yn cyhoeddi pecyn cymorth Llywodraeth Cymru ar gyfer grŵp cydgysylltu EUSS Cymru ym mis Gorffennaf. Ers hynny, mae gwefan y grŵp cydgysylltu (http://www.eusswales.com/cy/) wedi’i hyrwyddo ar blatfformau corfforaethol Llywodraeth Cymru ar Twitter a Facebook a llif Twitter y Cwnsler Cyffredinol.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu cynnwys yng nghyllidebau rhaglenni cyfredol.

***Argymhelliad 7.*** *Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ailadrodd ei neges o gymorth i ddinasyddion yr UE yng Nghymru.*

**Ymateb: Derbyn**

Fel y datganwyd yn gynt yn y llythyr hwn, mae dinasyddion yr UE yn ffrindiau, yn gymdogion ac yn gydweithwyr i ni, ac rydym am i holl ddinasyddion yr UE aros yma a pharhau i gyfrannu'n werthfawr at ein heconomi a'n cymdeithas.

Ar 14 Tachwedd 2019, cyhoeddodd y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit ddatganiad i'r wasg o dan y pennawd "Rydym am i ddinasyddion yr UE aros". Roedd y datganiad yn pwysleisio'r negeseuon hynny; bod dinasyddion yr UE yn cael eu gwerthfawrogi yng Nghymru, a bod Llywodraeth Cymru am i holl ddinasyddion yr UE yng Nghymru allu parhau i fyw a gweithio yng Nghymru.

Ar 24 Mehefin, cyflwynodd y Prif Weinidog Ddatganiad Ysgrifenedig ynglŷn â chyfraniad gwerthfawr gwladolion yr UE i Gymru, gan roi sicrwydd bod Llywodraeth Cymru yn gwneud popeth y gallwn i'w cefnogi a'n bod ni'n gwerthfawrogi'r cyfraniad y maent yn ei wneud i fywyd yng Nghymru.

Fel y nodwyd uchod, rydym yn adolygu ein cynllun cyfathrebu i sicrhau bod y negeseuon yn glir.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu cynnwys yng nghyllidebau rhaglenni cyfredol.

***Argymhelliad 8.*** *Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu'r adnoddau y mae wedi'u darparu i sefydliadau partner trwy Gronfa Bontio'r UE i sicrhau eu bod yn ddigonol i helpu grwpiau agored i niwed, ac eraill, i wneud cais i'r Cynllun Preswylio.*

**Ymateb: Derbyn**

Gyda chefnogaeth Cronfa Bontio'r UE, mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyngor a chymorth i ddinasyddion yr UE. Mae hyn yn cynnwys cyngor ar y Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE drwy: Newfields Law (hyd at OISC lefel 3); Cyngor ar Bopeth Cymru (hyd at OISC lefel 1); a chymorth ychwanegol i Settled (hyd at OISC lefel 1). Mae'r darparwyr cyngor hyn yn cydweithio, fel rhan o grŵp cydgysylltu EUSS Cymru, i gydgysylltu darpariaeth cyngor ledled Cymru, gan sicrhau'r defnydd gorau o adnoddau a chroesgyfeiriadau i sicrhau'r cymorth gorau i ddinasyddion yr UE.

Fel y soniwyd uchod, rydym hefyd yn defnyddio Cronfa Bontio'r UE i ddatblygu'r Rhaglen Cryfhau Cydlyniant Cymunedol i gynyddu ein cymorth ar gyfer cymunedau agored i niwed wrth i ni ddynesu at adael yr UE ac wedi dyrannu £30,000 arall ar gyfer cyfathrebu â dinasyddion yr UE.

Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n adolygu dyraniadau Cronfa Bontio'r UE hyd at fis Mawrth 2020. Bydd adolygiad pellach o gyllid ar ôl Mawrth 2020 yn cael ei gynnal fel y bydd darpariaeth ychwanegol gan Lywodraeth y DU yn cael ei nodi. Byddwn yn ysgrifennu at Gadeirydd y pwyllgor i roi'r wybodaeth ddiweddaraf wrth i waith ar yr adolygiadau hyn fynd rhagddo.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu cynnwys yng nghyllidebau rhaglenni cyfredol.

***Argymhelliad 9.*** *Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ymgymryd â gwaith archwilio ar bolisi mewnfudo sy'n gweithredu'n wahanol mewn ardaloedd gwahanol ar ôl Brexit, ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni ar bolisi Llywodraeth Cymru yn y maes hwn.*

**Ymateb: Derbyn**

Hyd yn hyn, mae agwedd Llywodraeth y DU at unrhyw ddatganoli o’r polisi mudo wedi bod yn negyddol, er bod rhyw awgrym bod hyn o bosib yn newid gyda’r ffocws diweddar ar system bwyntiau tebyg i Awstralia.

Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi ystyriaeth gynnar i nifer o gynigion a gyflwynwyd. Daeth adroddiad Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru i’r casgliad nad oedd yr achos dros gael polisi mewnfudo gwahanol mewn ardaloedd penodol ar sail lefelau cyflogau yn gryf iawn, gan fod marchnad lafur Cymru yn debyg iawn i bob rhan arall o’r DU, ac eithrio Llundain a de-ddwyrain Lloegr.

Serch hynny, os nad yw polisi mewnfudo Llywodraeth y DU yn y dyfodol yn mynd i’r afael ag anghenion economaidd, demograffig a chymdeithasol Cymru, yna byddwn yn ystyried opsiynau ar gyfer polisi mewnfudo gwahanol i ardaloedd penodol ar ôl Brexit. Nid yw hyn o reidrwydd yn gofyn am ddatganoli pwerau mewnfudo.

Cododd yr Ysgrifennydd Cartref blaenorol, Sajid Javid, y posibilrwydd o amrywiad daearyddol yn y trothwyon isafswm cyflog ar gyfer mudwyr sy’n chwilio am waith ar ôl Brexit. Yn ei lythyr comisiynu at Bwyllgor Cynghori ar Fudo y Swyddfa Gartref, gofynnodd iddynt ystyried beth ddylai trothwyon cyflogau fod yn y dyfodol ar gyfer gweithwyr sy’n dod i’r DU [ac] a ddylid cael gwahanol drothwyon ar gyfer gwahanol [wledydd a] rhanbarthau y DU. Disgwylir i’r Pwyllgor adrodd ym mis Ionawr 2020. Drwy gyflwyno trothwyon cyflog gwahanol mewn ardaloedd penodol gellir ystyried enillion cyfartalog is Cymru ar hyn o bryd.

Fodd bynnag, cafwyd cytundeb cyffredinol i benderfyniad y Comisiwn Cyflogau Isel i bennu’r isafswm cyflog cenedlaethol ar lefel y DU gyfan er mwyn lleihau anghydraddoldeb cyflogau ac mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi bod yn feirniadol o ymdrechion Llywodraeth y DU i bennu trothwyon cyflog is ar gyfer y sector cyhoeddus yng Nghymru. Nid yw Llywodraeth Cymru yn argyhoeddedig felly mai trothwy cyflog is penodol i Gymru fyddai’r dewis gorau.

Ers dod yn Brif Weinidog, mae Boris Johnson wedi bod o blaid mabwysiadu system bwyntiau tebyg i Awstralia. Mae Llywodraeth y DU wedi gofyn i’r Pwyllgor Cynghori ar Fudo wneud cynigion ar gyfer cyflwyno system fudo seiliedig ar bwyntiau tebyg i Awstralia ochr yn ochr â’i adolygiad o drothwyon cyflogau’r dyfodol. Yn ddiweddar, awgrymodd yr Ysgrifennydd Cartref cyfredol, Priti Patel, y gellid dyfarnu pwyntiau ychwanegol i bobl os ydynt yn gweithio y tu allan i Lundain a’r de-ddwyrain. Yn dibynnu ar gynnwys y cynllun, gallai system bwyntiau tebyg i Awstralia fod yn fwy hyblyg na system fisa Haen 2 (Cyffredinol) cyfredol y DU lle mae’n rhaid i ymgeiswyr fodloni’r holl feini prawf. O dan system debyg i Awstralia, gall ymgeisydd gymhwyso gyda sgôr cyfanredol. Mae hyn yn awgrymu, wrth i fanylion pellach y cynigion gael eu datblygu gan Lywodraeth y DU, bod yna le i archwilio a allai system bwyntiau liniaru rhai o’r effeithiau mwyaf niweidiol ar Gymru sy’n gysylltiedig â system fewnfudo ddethol, rhy gaeth sy’n seiliedig ar sgiliau a chyflogau a allai godi costau a chynyddu anawsterau recriwtio’n sylweddol yn y dyfodol.

Mae dulliau eraill o fynd i’r afael â mewnfudo sy’n gwahaniaethu rhwng ardaloedd penodol fel gwahaniaethu cenedlaethol a rhanbarthol yn seiliedig ar anghenion daearyddol ac estyniad daearyddol i Restr Galwedigaethau â Phrinder i gynnwys Cymru yn cael eu trafod o dan argymhellion 10, 11 a 12 isod.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu cynnwys yng nghyllidebau rhaglenni cyfredol.

***Argymhelliad 10.*** *Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn comisiynu ymchwil ar y tueddiadau demograffig yn y dyfodol, sy’n cymryd i ystyriaeth lefelau is o ymfudo, a’i effaith bosibl ar economi Cymru.*

**Ymateb: Derbyn**

Dangosodd *Brexit a Thegwch o ran Symudiad Pobl* ac adroddiad Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru fod yr heriau demograffig y mae Cymru'n eu hwynebu yn llawer mwy acíwt nag yn Lloegr, gan fod gan Gymru arafach yn y boblogaeth yn gyffredinol ond twf cyflymach yn y boblogaeth dros 65 oed. Ar yr un pryd, rhagwelir y bydd y boblogaeth 16-64 oed yn crebachu 6% erbyn 2039.

Mae **amcanestyniadau poblogaeth cenedlaethol 2018** diweddaraf y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn dangos bod poblogaeth Cymru'n debygol o ostwng yn y tymor hir (o 2024 ymlaen). Dyma'r tro cyntaf i ni weld amcanestyniad o ostyngiad ym mhoblogaeth Cymru yn y cyfnod diweddar. Mae amcanestyniadau poblogaeth y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn ansicr iawn, gyda'u sensitifrwydd i fudo ac yn enwedig i fudo sy'n fewnol i'r DU yn un o'r rhesymau pennaf. Serch hynny, maent yn cyfeirio at risg benodol i sylfaen drethu Cymru yn y dyfodol, gyda'r boblogaeth "oedran gweithio"[2] yn debygol o gynyddu ar gyfradd arafach nag yn Lloegr. Mae yna oblygiadau ehangach i berfformiad economaidd cymharol Cymru yn y dyfodol hefyd ac i ganlyniadau cymdeithasol.

Byddwn felly'n comisiynu gwaith ymchwil pellach ar y goblygiadau economaidd ac ariannol ac opsiynau polisi cysylltiedig tueddiadau demograffig sy'n cwmpasu mudo rhyngwladol a mewnol sy'n gyson ag agweddau cymdeithasol a diwylliannol ar fudo.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu cynnwys yng nghyllidebau rhaglenni cyfredol.

***Argymhelliad 11.*** *Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn galw ar Lywodraeth y DU i sefydlu Rhestr Galwedigaethau â Phrinder ar gyfer Cymru, y gall Llywodraeth Cymru ei diwygio yn unol ag anghenion Cymru.*

**Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor**

Credwn y gallai Rhestr benodol ar gyfer Cymru fod yn rhan o ddull o fynd ati'n wahanol ar gyfer ardaloedd penodol a fyddai'n diwallu anghenion Cymru'n well yn amodol ar gael esboniad gan Lywodraeth y DU ynglŷn â sut y byddai'r Rhestr yn gweithredu dan y system fewnfudo newydd. Y rheswm dros dderbyn 'mewn egwyddor' yn unig yw bod gwerth Rhestr ar wahân ar gyfer Cymru yn ddibynnol ar hynny.

Fodd bynnag, mae yna risg y gallai Llywodraeth y DU gyfleu hyn fel consesiwn sylweddol, ond mewn gwirionedd ni fyddai'n cael fawr o effaith yn ymarferol. Felly, cyn rhoi blaenoriaeth i'r dull hwn o fynd o'i chwmpas hi, bydd angen i ni ystyried a fyddai cael Rhestr Galwedigaethau â Phrinder ar wahân i Gymru yn dod â manteision digon sylweddol.

Ar sail y cynigion cyfredol gan y Pwyllgor Cynghori ar Fudo (sydd o dan ystyriaeth o hyd gan Lywodraeth y DU), mae hwn yn bwynt dadleuol iawn.

Yn gyntaf, mae proffil y sectorau a'r galwedigaethau prin yn debygol o fod yn debyg i'r DU gyfan. Mae'n nodedig fod rhestr benodol yr Alban yn fyr iawn ar hyn o bryd, gan gynnwys dim ond dwy alwedigaeth yn fwy na rhestr y DU (gwyddonwyr ffisegol ac ymarferwyr meddygol).

Yn ail, yn y system fisa Haen 2 (Cyffredinol) gyfredol, mae'r Rhestr Galwedigaethau â Phrinder yn galluogi blaenoriaethu galwedigaethau penodol o fewn y cap rhifyddol cyffredinol a bennwyd ar gyfer mudwyr o'r tu allan i'r UE ac yn rhoi esemptiad i gyflogwyr rhag gorfod gwneud cais am y prawf marchnad lafur preswyliol. Fodd bynnag, mae Papur Gwyn Llywodraeth y DU ar Fewnfudo yn cynnig dilyn argymhellion cynharach y Pwyllgor Cynghori ar Fudo i ddileu'r cap ar nifer y mudwyr ynghyd â'r prawf marchnad lafur preswyliol. Yr unig fanteision sy'n weddill o fod ar y

[2] Dangosir cohort oedran penodol i ddileu effaith newidiadau yn oedran ymddeol y wladwriaeth ar y diffiniad o oedran gweithio.

Rhestr mewn system fewnfudo yn y dyfodol yw'r gofyniad cyflogau is ar gyfer preswylio[3] a ffioedd fisa is.

Yn gyffredinol, felly, mae yna gwestiynau gwirioneddol am bwrpas y Rhestr Galwedigaethau â Phrinder yn y dyfodol ac mae'r Pwyllgor Ymgynghori ar Fudo wedi argymell adolygiad o'r Rhestr unwaith y bydd manylion system fudo newydd y DU yn hysbys.

Mae mewnfudo yn fater a gedwir yn ôl gan Lywodraeth y DU ac mae agwedd llywodraethau olynol y DU at ddatganoli'r cyfrifoldeb am bolisi mudo wedi bod yn negyddol. Felly, gall fod cyfyngiadau ar allu Llywodraeth Cymru i ddylanwadu ar y meini prawf yn y dyfodol ar gyfer cynnwys galwedigaeth ar Restr Galwedigaethau â Phrinder yng Nghymru.

Er bod yna nifer o opsiynau ar gael i wneud mwy o ddefnydd o ddangosyddion o'r gwaelod i fyny, cael Gweinidogion Cymru i gyfrannu mwy at gomisiynu a phenderfynu pa alwedigaethau sydd â phrinder yng Nghymru, gwneud y rhestr yn fwy ymatebol i newidiadau yn y farchnad lafur ac ati, mae'n dod yn fwy clir nad yw polisi mewnfudo Llywodraeth y DU a amlinellir yn y Papur Gwyn yn mynd i'r afael â rhai o anghenion demograffig a chymdeithasol sylfaenol Cymru. Felly, yn y tymor hirach, mae'n gwestiwn o hyd a yw Rhestri Galwedigaethau â Phrinder yn fesur defnyddiol i fynd i'r afael â'r heriau mwy cyffredinol y mae Cymru'n eu hwynebu ac a oes angen dull mwy systematig o ymdrin â pholisi mewnfudo yn y dyfodol.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu cynnwys yng nghyllidebau rhaglenni cyfredol.


***Argymhelliad 12**. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn amlinellu, wrth ymateb i'r adroddiad hwn, a yw wedi cynnal adolygiad i benderfynu sut y byddai Rhestr Galwedigaethau â Phrinder sy'n benodol i Gymru yn ystyried rhai o anghenion penodol Cymru.*

**Ymateb: Derbyn**

Dangosodd y dystiolaeth a dderbyniodd y Pwyllgor Cynghori ar Fudo fod llawer o'r galwedigaethau oedd â phrinder yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon yr unfath â'r rhai yn y DU hefyd. Mae hyn yn golygu bod y galwedigaethau sydd â thystiolaeth o brinder wedi'u rhoi ar Restr Galwedigaethau â Phrinder y DU gyfan ac nad oedd y Pwyllgor Cynghori ar Fudo wedi argymell rhoi unrhyw alwedigaethau ar Restri Gogledd Iwerddon na Chymru. Dylid cyfeirio at anghenion demograffig a sgiliau tymor hirach Cymru wrth ddadlau'r achos dros unrhyw gynllun rhanbarthol felly.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu cynnwys yng nghyllidebau rhaglenni cyfredol.

Yn gywir,



**Jeremy Miles AC/AM**
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog Brexit
Counsel General and Brexit Minister